## Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Asesiad Effaith Integredig

Dyluniwyd yr asesiad effaith integredig hwn er mwyn helpu i gefnogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**NODER: Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae angen cwblhau Adran 3 y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Gweler tudalen 6 o Ganllawiau Llywodraeth Cymru, Paratoi ar gyfer cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol:.**

## 1. Manylion y Cynnig

| Swyddog Arweiniol | Pennaeth Gwasanaeth | Maes Gwasanaeth ac Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| **Andrea West** | **Sue Richards** | **Ysgolion yr 21ain Ganrif,<br>Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol** | **Cyhoeddiad 23.07.2021<br>Adolygu 2.12.21** |

| **A yw'r cynnig hwn yn ymwneud â… (ticiwch flwch perthnasol)** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi** | | **Strategaeth / Cynllun** | | **Ymarfer** | | **Gweithdrefn** | | **Ailstrwythuro** | | **Prosiect** | **X** |

| **Beth yw'r cynnig i'w asesu?** *Rhowch fanylion bras am y cynnig a rhowch ddolen i unrhyw adroddiad neu ddogfennau perthnasol.* |
|---|
| Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Band B Cam 2 – Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon<br><br>Mae angen i ysgolion yng Nghymru fod mewn cyflwr da ac yn addas i ddarparu addysg. Mewn rhai achosion, gellir moderneiddio, trwsio, adnewyddu, ehangu neu ailadeiladu ysgolion yn rhannol i gyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer dulliau addysgu a dysgu cyfoes. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn y lleoliad cywir ar hyn o bryd ac, mewn achosion o'r fath, efallai y byddwn yn cynnig adeiladu ysgolion newydd neu newid ysgolion sydd eisoes yn bodoli. |

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn anelu at barhau i godi safonau ysgolion a gwella safonau'r amgylchedd dysgu i greu ysgolion yr 21ain ganrif sy'n addas at y diben a rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn yng Nghaerffili. Mae rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon wedi cael eu nodi fel un o'r prosiectau blaenoriaeth ym Mand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon wedi'u dynodi'n 'Ysgolion Cymunedol' yn unol â'r diffiniad ym Mhennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'u nod yw cynorthwyo disgyblion oed babanod ac iau yn eu dalgylchoedd er mwyn galluogi pob plentyn i gyflawni ei botensial a llenwi staff, disgyblion a rhieni â brwdfrydedd a dyheadau uwch mewn amgylchedd cefnogol a diogel gan baratoi disgyblion i ddiwallu anghenion byd sy'n newid yn gyson – "Cydweithio am y Gorau" (aralleiriad o Ddatganiad Cenhadaeth yr Ysgol).

**Hoffai'r Cyngor wneud 'newid a reoleiddir' i ddwy ysgol a gynhelir yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.**

Rydym yn cynnig gwneud y canlynol:

- **Uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd ar safle presennol yr ysgol fabanod i blant rhwng 3 ac 11 oed. Disgwylir y caiff y prosiect ei gwblhau ym mis Medi 2024.**

- Cynigir y bydd safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon yn cael ei ad-drefnu er mwyn cynnal yr Ysgol Gynradd newydd. Caiff adeilad newydd ei godi i ddarparu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (oed iau) a chaiff adeilad presennol yr Ysgol Fabanod ei adnewyddu'n rhannol ar y safle. Bydd yr Ysgol Gynradd gyfan yn darparu ar gyfer 275 o ddisgyblion yn ogystal â 40 o leoedd meithrin, gan sicrhau bod darpariaeth ysgol gynradd gyflawn a chynhwysol yn cael ei datblygu a'i chyflwyno, gan ddarparu'r cwricwlwm llawn i ddisgyblion mewn amgylchedd modern, diogel ac ysbrydolus.

- Bydd ardal ddysgu awyr agored a chyfleusterau gwell ar safle'r ysgol gynradd newydd a fydd yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant yr holl ddisgyblion.

- Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. Y bwriad yw cynnwys mesurau yn y dyluniad fel y gellir creu 'parthau' diogel y gall y gymuned ehangach eu defnyddio.

Ceir rhagor o wybodaeth ar [dudalennau gwe Ysgolion yr 21ain Ganrif]




SGANIWCH FI

## 2. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

*(Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi "sylw priodol" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol; a meithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau gwahanol). Noder y gall fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchodedig.*

| Nodweddion Gwarchodedig | A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y nodweddion gwarchodedig a sut? | Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(pobl o bob oed)* | **Cadarnhaol**<br>Nod y cynnig yw ceisio darparu ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac yn sgil cynlluniau i gefnogi defnydd cymunedol, gall fod o fudd i bob oedran.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu uned gofal plant bwrpasol â 24 o leoedd ar safle Ysgol Fabanod Llanfabon, Nelson, gallai'r Cyngor, gan weithio gyda'r darparwr gofal sesiynol lleol, | Dim wedi'u nodi | Deddf Cydraddoldeb 2010<br><br>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024<br><br>Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall<br><br>Caerffili – Proffiliau Wardiau Cyfrifiad 2011<br><br>Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)<br><br>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ehangu nifer y lleoedd a gynigir fesul sesiwn gan alluogi hyd at 68 o leoedd posibl ar gyfer y Cynnig Gofal Plant drwy amrywiaeth o ddarpariaeth gofleidiol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, yn ogystal â chynnig lleoedd mewn cylch chwarae i blant 2 oed.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r cynnig hwn yn ymwneud â chynlluniau i ehangu adeilad presennol Ysgol Fabanod Llanfabon drwy godi estyniad o'r radd flaenaf a fydd yn cynyddu'r capasiti fel y gellir darparu ar gyfer 275 o ddisgyblion oed cynradd, yn ogystal â 40 o leoedd meithrin.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y cynnig hwn yn sicrhau y gellir ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol yn yr ardal.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r Cyngor hefyd yn ymchwilio i'r potensial o ddatblygu cysylltiadau yn yr ardal leol, drwy alluogi'r ysgol i ddefnyddio'r ganolfan a'r neuadd gymunedol gyfagos fel rhan o ddull campws cymunedol ehangach, gan sicrhau bod pob grŵp oedran yn gallu gwneud y defnydd gorau o bob ased yn yr ardal.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y sawl a fydd yn mynychu, yn | | chyfrwng iaith eu haddysg.<br><br>Capasiti cyfredol Ysgol Fabanod Llanfabon yw 120 o ddisgyblion yn ogystal â 33 o leoedd meithrin.<br><br>Mae 237 o ddisgyblion ar y gofrestr yn yr ysgol fabanod a'r ysgol iau ar hyn o bryd (heb gynnwys y ddarpariaeth Feithrin sy'n cynnwys 35 o blant).<br><br>Nifer amcanestynedig y disgyblion a dderbynnir i'r ysgol gynradd newydd fydd 275 yn ogystal â 40 o leoedd Meithrin. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | defnyddio ac yn gweithio yn yr adeilad yn cael budd o gyfleusterau arloesol yr 21ain Ganrif, sy'n addas at y diben.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y cynnig hwn yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, ardal chwarae yn yr awyr agored a mynediad estynedig i'r gymuned sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pawb. | | |
| **Anabledd** *(pobl ag anableddau/ cyflyrau hirdymor)* | **Cadarnhaol**<br>Bydd y cynnig i estyn Ysgol Fabanod Llanfabon yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ac yn gyson â Bwletinau Rheoliadau Adeiladu perthnasol Llywodraeth Cymru (BB99). Fel rhan o'r cynnig hwn, byddem yn buddsoddi yn adeilad presennol Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn gwneud gwaith ad-drefnu mewnol i greu ystafelloedd dosbarth sy'n cydymffurfio â gofynion maint a sicrhau y bydd y broses symud i'r adeilad newydd arfaethedig yn mynd rhagddi'n ddidrafferth.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Y dyhead, ac un o ragofynion y | Bydd yr Awdurdod yn ceisio lleihau unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r broses o estyn Ysgol Fabanod Llanfabon eu cael ar drigolion lleol. | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**<br><br>**Cymru Gyfartal 2020-2024 Hawdd ei Ddeall**<br><br>'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/><br><br>Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol weithio i'w cyflawni.<br><br>• Cymru Lewyrchus |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, yw ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i gefnogi angen addysgol a defnydd cymunedol, hyrwyddo cadernid cymunedol a chyfrannu at gyflawni sawl un o Strategaethau'r Cyngor. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith a'r adnoddau newydd, fel rhan o'r cynnig, caiff hyblygrwydd ei sicrhau wrth adeiladu'r ysgol mewn ffordd a fydd yn ateb galw defnydd cymunedol lleol. | | • Cymru Gydnerth<br>• Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br>• Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un y mae ei hunaniaeth rhywedd neu ei fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddo pan y'i ganwyd)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil** *(pobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil)* | **Niwtral**<br>Dim effaith | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(menywod sy'n feichiog a/neu ar absenoldeb mamolaeth)* | **Niwtral**<br>Dim effaith | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Hil** *(pobl o gymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chefndiroedd hiliol gwahanol)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Crefydd neu Gred** *(pobl sydd â chrefyddau a chredoau gwahanol, gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Rhyw** *(menywod a dynion, merched a bechgyn a'r rhai sy'n nodi eu rhywedd eu hunain)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** *(lesbiaidd, hoyw, deurywiol, heterorywiol)* | **Niwtral**<br>Dim newid wedi'i ragweld | Ddim yn gymwys gan fod y cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach ni waeth pa nodweddion gwarchodedig penodol sydd ganddynt | Ddim yn gymwys |

## 3. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Penderfyniadau Strategol yn Unig)

*(Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wir wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, gan arwain at fwy o amddifadedd materol sy'n cyfyngu ar allu i gael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol)*

**Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol hyn a'r effaith y gall neu na all eich cynnig ei chael arnynt:**

- Rhieni sengl a theuluoedd agored i niwed
- Pobl â llythrennedd/rhifedd isel
- Pensiynwyr
- Plant sy'n derbyn gofal
- Pobl ddigartref
- Gofalwyr
- Cymuned y Lluoedd Arfog
- Myfyrwyr
- Aelwydydd un oedolyn
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau
- Pobl sydd â phrofiad o'r system ceisio lloches
- Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal
- Pobl sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (MALlC)
- Pobl sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol

| Anfantais Economaidd-gymdeithasol | A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon? |
|---|---|---|---|
| **Incwm Isel / Tlodi Incwm**<br>*(methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati)* | **Cadarnhaol**<br>Bydd darparu cyfleusterau addysgol sy'n addas i'r dyfodol yn gwella deilliannau addysgol a chanlyniadau bywyd disgyblion presennol Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon a disgyblion y dyfodol.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Er nad yw'r ardal yn un sy'n dangos cyfraddau sylweddol o anfantais gymdeithasol, bydd rhai elfennau o amddifadedd o hyd. Bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, ac yn cynnig parhad addysgol gwell i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch | Ddim yn gymwys | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | i bobl sydd ag anableddau dysgu, waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol. | | Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw “Addysg – y gallu i fod yn wybodus”.<br><br>**A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol**<br>(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)<br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.<br><br>**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)**<br><br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Fabanod Llanfabon yn dangos bod 25% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | am ddim a 22% yw'r ffigur yn Ysgol Iau Llancaeach (data Estyn), o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan. |
| **Anfantais Economaidd-gymdeithasol** | **A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut?** | **Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru?** | **Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon?** |
| **Cyfoeth Isel a/neu Ddim Cyfoeth** *(digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau, ond dim cynilion i ymdopi ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | **Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson.  O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Er nad yw'r ardal yn un sy'n dangos cyfraddau sylweddol o anfantais gymdeithasol, bydd rhai elfennau o amddifadedd o hyd. Bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, ac yn cynnig parhad addysgol gwell i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.<br><br>**Niwtral**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol | Ddim yn gymwys | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".<br><br>**A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol**<br>(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)<br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.<br><br>**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)**<br><br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Fabanod Llanfabon yn dangos bod 25% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim a 22% yw'r ffigur yn Ysgol Iau Llancaeach (data Estyn), o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan. |
| **Amddifadedd Materol** *(methu cael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. nwyddau ariannol fel yswiriant bywyd, talu i drwsio nwyddau trydanol sydd wedi torri/prynu rhai newydd, cartref cynnes, diddordebau ac ati)* | **Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Er nad yw'r ardal yn un sy'n dangos cyfraddau sylweddol o anfantais gymdeithasol, bydd rhai elfennau o amddifadedd o hyd. Bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, ac yn cynnig parhad addysgol gwell i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.<br><br>**Cadarnhaol** | Ddim yn gymwys | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith ac adnoddau yn un o ragofynion cyllid Llywodraeth Cymru fel bod hyblygrwydd i le a chyfleusterau fod ar gael i'w defnyddio fel asedau cymunedol. Er nad yw dyluniad yr ysgol newydd arfaethedig wedi'i gwblhau eto, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet i barhau, mae trafodaethau wedi cynnwys mynediad cymunedol i'r ysgol yn unol â gofynion y cwricwlwm ac ar ôl oriau ysgol. | | yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".<br><br>**A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol**<br>(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)<br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.<br><br>**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)**<br><br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Fabanod Llanfabon yn dangos bod 25% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim a 22% yw'r ffigur yn Ysgol Iau Llancaeach (data Estyn), o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan. |
| **Amddifadedd Ardal** *(ble rydych yn byw (ardaloedd gwledig), ble rydych yn gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus)* | **Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Er nad yw'r ardal yn un sy'n dangos cyfraddau sylweddol o anfantais gymdeithasol, bydd rhai elfennau o amddifadedd o hyd. Bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, ac yn cynnig parhad addysgol gwell i | Ddim yn gymwys | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau fel y gall y gymuned ddefnyddio rhannau o adeilad newydd yr ysgol yn ddiogel ar adegau addas, yn unol ag amserlen y cwricwlwm, ac ar ôl i oriau ysgol. Bydd hefyd yn cryfhau ac yn diogelu gwaith i hyrwyddo cynhwysiant a llesiant yn y gymuned.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd gwaith caffael yn cynnwys Budd i'r Gymuned fel gofyniad craidd, e.e. mewn perthynas â phrosesau recriwtio a hyfforddi lleol wedi'u targedu, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol, wrth ddarparu'r cyfleuster newydd arfaethedig.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yr adeilad newydd yn darparu cyfleusterau cynhwysol a fydd yn hygyrch i blant a phobl ifanc agored i niwed ynghyd â chefnogi anghenion cyfannol eu teulu ehangach a chefnogi eu llesiant yn y dyfodol.  Pan fydd y safle'n cael ei ddefnyddio gan aelodau'r gymuned, byddant yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau ni waeth beth fo'u gofynion mynediad personol. | | defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".<br><br>**A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol**<br>(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)<br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.<br><br>**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)**<br><br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cadarnhaol**<br>Mae'r Cyngor yn ymchwilio i'r potensial o ddatblygu cysylltiadau yn yr ardal leol, drwy alluogi'r ysgol i ddefnyddio'r ganolfan a'r neuadd gymunedol gyfagos fel rhan o ddull campws cymunedol ehangach, gan sicrhau bod pobl o bob grŵp oedran a chefndir cymdeithasol yn gallu gwneud y defnydd gorau o bob ased yn yr ardal. | | Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Fabanod Llanfabon yn dangos bod 25% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim a 22% yw'r ffigur yn Ysgol Iau Llancaeach (data Estyn), o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan. |
| **Cefndir Economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. cyflogaeth, incwm ac addysg rhieni)* | **Cadarnhaol**<br>Mae'r cyfleuster yn hygyrch i ddisgyblion a'r gymuned ehangach waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru. | Ddim yn gymwys | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Er nad yw'r ardal yn un sy'n dangos cyfraddau sylweddol o anfantais gymdeithasol, bydd rhai elfennau o amddifadedd o hyd. Bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, ac yn cynnig parhad addysgol gwell i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn caniatáu i'r gymuned barhau i ddefnyddio'r cyfleuster ac ehangu'r hyn y gellid ei gynnig o bosibl.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yr adeilad newydd yn darparu cyfleusterau cynhwysol i blant a phobl ifanc, gan gefnogi anghenion cyfannol eu teulu ehangach a'u llesiant yn y dyfodol. | | Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".<br><br>**A yw Cymru'n Decach? – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol**<br>(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)<br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd.<br><br>**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Fabanod Llanfabon yn dangos bod 25% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim a 22% yw'r ffigur yn Ysgol Iau Llancaeach (data Estyn), o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan. |
| **Anfantais Economaidd-gymdeithasol**<br>*(Pa effaith gronnol fydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) (g)warchodedig neu nodwedd agored i niwed neu am eu bod eisoes dan anfantais)* | **Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Er nad yw'r ardal yn un sy'n | | **Deddf Cydraddoldeb 2010**<br><br>**Deddf Cymru 2017 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>**Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswydd y sector cyhoeddus mewn perthynas ag anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**<br><br>Mae Adran 45 o Ddeddf Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | dangos cyfraddau sylweddol o anfantais gymdeithasol, bydd rhai elfennau o amddifadedd o hyd. Bydd y cynnig hwn yn diwallu anghenion pob dysgwr, ni waeth beth fo'i gefndir, ac yn cynnig parhad addysgol gwell i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed.<br><br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posibl o seilwaith ac adnoddau yn un o ragofynion cyllid Llywodraeth Cymru fel bod hyblygrwydd i le a chyfleusterau fod ar gael i'w defnyddio fel asedau cymunedol. Bydd hyn yn cynnwys creu parthau diogel mewn rhannau o'r ysgol, gan gynnwys y neuadd ac ystafell ddosbarth amlbwrpas, at ddefnydd y gymuned. Er nad yw dyluniad yr adeilad newydd arfaethedig wedi'i gwblhau eto, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet i barhau, mae trafodaethau wedi cynnwys defnydd cymunedol o'r ysgol yn ystod oriau'r ysgol, lle y bo'n briodol ac yn unol ag amserlen y cwricwlwm, ac ar ôl oriau ysgol.<br><br><br>**Cadarnhaol**<br>Gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu uned gofal | | 2017 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn y Ddyletswydd hon yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pŵer hwn i gychwyn Adrannau 1 i 3 o Ddeddf 2010 yng Nghymru – y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae'r Ddyletswydd yn gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyrff pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol i roi sylw priodol i'r angen i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Yn yr achos hwn, y prif anghydraddoldeb o ran canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol y mae angen ei ystyried yw "Addysg – y gallu i fod yn wybodus".<br><br>**A yw Cymru'n Decach?** – Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol<br>(Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018)<br>Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cydnabod bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael effaith ganlyniadol ar addysg ac iechyd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | plant bwrpasol â 24 o leoedd ar safle Ysgol Fabanod Llanfabon, Nelson, gallai'r Cyngor, gan weithio gyda'r darparwr gofal sesiynol lleol, ehangu nifer y lleoedd a gynigir fesul sesiwn gan alluogi hyd at 68 o leoedd posibl ar gyfer y Cynnig Gofal Plant drwy amrywiaeth o ddarpariaeth gofleidiol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, yn ogystal â chynnig lleoedd mewn cylch chwarae i blant 2 oed. Bydd y datblygiad hwn yn helpu i gefnogi teuluoedd lle mae angen darpariaeth gofal plant leol ar rieni sy'n cyd-fynd â'u hamodau cyflogaeth. | | **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)**<br><br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn gwasanaethu Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) Nelson. O'r tair ardal hyn, mae Nelson 2 yn safle 41 allan o 110 o ACEHIau ar draws Caerffili; mae ardaloedd 1 a 3 yn safle 80 a 91, yn y drefn honno ac maent yn y 50% o'r ACEHIau lleiaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae data prydau ysgol am ddim ar gyfer Ysgol Fabanod Llanfabon yn dangos bod 25% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim a 22% yw'r ffigur yn Ysgol Iau Llancaeach (data Estyn), o gymharu ag 20% ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymru gyfan. |

## 4. Cynllun Corfforaethol – Amcanion Llesiant y Cyngor

*(Sut mae eich cynnig yn cyflawni yn erbyn unrhyw rai o Amcanion Llesiant y Cyngor neu bob un ohonynt? Mae'r amcanion hyn, yn eu tro, yn cefnogi nodau llesiant cenedlaethol Cymru fel y'u hamlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. A oes unrhyw effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral? Os oes effeithiau negyddol, sut mae'r rhain wedi cael eu lliniaru?)* Amcanion Llesiant

| | |
|---|---|
| **Amcan 1** - Gwella cyfleoedd addysg i bawb | **Ysgolion yr 21ain Ganrif - Caerffili**<br>Dolen i raglen buddsoddi cyfalaf y Cyngor ar gyfer ysgolion.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r cynnig yn bwriadu cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr ifanc oed meithrin a chynradd ac i'r gymuned gael mynediad i gyfleusterau addysgol o ansawdd uchel. Mae'r cynnig yn ymwneud ag uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon gan ymgorffori estyniad newydd i Ysgol Fabanod Llanfabon ynghyd â gwaith ad-drefnu mewnol i adeilad presennol yr ysgol fabanod er mwyn creu ysgol gynradd gyfun ar safle Llanfabon. Bydd y newid arfaethedig yn darparu lle ar gyfer hyd at 275 o ddisgyblion oed cynradd, ynghyd â darpariaeth feithrin â 40 o leoedd, mewn amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, ardal chwarae yn yr awyr agored a mynediad estynedig at ddefnydd y gymuned.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r cynnig hwn yn bwriadu gwaredu casgliad o adeiladau ar safle Ysgol Iau Llancaeach sy'n dyddio o 1909 ac yr ystyrir eu bod yng nghategori C+ o ran cyflwr. Mae Ysgol Fabanod Llanfabon yng nghategori cyflwr C+ hefyd. Bydd y cynigion i godi estyniad newydd ac ad-drefnu Ysgol Fabanod Llanfabon yn mynd i'r afael â'r cyfuniad presennol o waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni yn y ddwy ysgol. |
| **Amcan 2** - Galluogi cyflogaeth | **Cadarnhaol**<br>Fel rhan o'r gofynion ariannu ar gyfer holl gynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Budd i'r Gymuned yn ofyniad craidd mewn unrhyw broses gaffael sy'n ymwneud â dyfarnu contractau ac felly caiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys nifer o dargedau ynghylch prosesau recriwtio a hyfforddi lleol, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd cynnwys hyd at 68 o leoedd posibl ar gyfer y Cynnig Gofal Plant drwy amrywiaeth o ddarpariaeth gofleidiol, ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau, ynghyd â chynnig lleoedd mewn cylch chwarae i blant 2 oed, yn ychwanegu at y gefnogaeth a fydd yn galluogi teuluoedd lleol i weithio. |
| **Amcan 3** - Mynd i'r afael ag argaeledd, cyflwr a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor, cymorth | Ddim yn gymwys i'r cynnig hwn |

| | |
|---|---|
| neu gefnogaeth er mwyn helpu i wella llesiant pobl | |
| **Amcan 4** - Hybu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n gwella cyfleoedd, yn hybu ffyniant<br>ac yn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd | **Niwtral**<br>Mae dyletswydd Statudol ar yr Awdurdod i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion i'w hysgol addas agosaf os ydynt yn byw y tu hwnt i "bellter cerdded" i'r ysgol honno. Caiff yr holl ddisgyblion eu hasesu yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cynnig polisi mwy hael na'r hyn y mae'r Mesur yn ei wneud yn ofynnol yn statudol. Rhagwelir y cynhelir y *status quo* gan y bydd yr ysgol gynradd newydd ar safle'r ysgol fabanod bresennol a dim ond 0.5 milltir oddi wrth yr ysgol iau bresennol.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn llai na 0.5 milltir oddi wrth ei gilydd, felly mae'n debyg na fydd y trefniadau teithio gwahanol yn sgil y cynnig yn cael fawr ddim effaith ar ddisgyblion. Rhagwelir hefyd y bydd uno'r ysgolion er mwyn creu'r ddarpariaeth gynradd newydd yn cael effaith gadarnhaol ar draffig a theithio yn yr ardal, gan dynnu llawer iawn o draffig a thagfeydd parcio o'r brif ffordd drwy bentref Nelson a lleihau nifer y teithiau hefyd gan y bydd brodyr a chwiorydd bellach yn mynychu'r un lleoliad. |
| **Amcan 5** - Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach<br>o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | **<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>**<br>• Cymru Lewyrchus<br>• Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y bwriad i integreiddio darpariaeth gymunedol bresennol â'r gwaith o ddatblygu'r ysgol gynradd newydd yn helpu'r disgyblion a'r gymuned leol i fod yn rhan o Gymru iachach ac yn helpu i greu cymunedau cydlynus.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd darparu cyfleusterau addysgol sy'n addas i'r dyfodol yn gwella deilliannau addysgol a chanlyniadau bywyd disgyblion presennol Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon a disgyblion y dyfodol yn yr |

| | |
|---|---|
| | ysgol gynradd newydd. Bydd y cyfleuster yn gwbl hygyrch i'r holl ddysgwyr waeth beth fo unrhyw anfantais economaidd-gymdeithasol benodol, gan alluogi'r plant sy'n mynychu'r ysgol i ffynnu a chael effeithiau canlyniadol cadarnhaol ar y plant, eu teuluoedd a'r ardal leol. |
| **Amcan 6 -** Helpu dinasyddion i barhau i fod yn annibynnol a gwella eu llesiant. | **Cadarnhaol**<br>Mae'r cynnig yn cynnwys datblygu darpariaeth feithrin Cyfnod Sylfaen a bydd yn sicrhau darpariaeth barhaus rhwng y dosbarth meithrin a'r adran gynradd gan wneud y broses drosglwyddo yn hawdd i'r disgyblion ac i rieni.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd darparu gofal plant cofleidiol, clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau yn galluogi teuluoedd sy'n gweithio i fanteisio ar ddarpariaeth debyg i'r hyn sydd eisoes ar gael mewn rhannau eraill o'r fwrdeistref. |

## 4a. Cysylltiadau ag unrhyw bolisi perthnasol arall gan y Cyngor

*(Sut mae eich cynnig yn cyflawni yn erbyn unrhyw bolisi perthnasol arall gan y Cyngor?)*

Mae'r cynnig yn cyfrannu at y Strategaethau canlynol:

- **Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir (2019-2022)**

Bydd y cynnig hwn yn cyflawni uchelgais y Cyngor i roi'r cyfleoedd gorau mewn bywyd i bob dysgwr drwy ddarparu addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel yn ein hysgolion trawiadol sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.

- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili (2018-2020)**

Mae ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth, fel y gwelir ym Mand B o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Gweledigaeth y cyngor yw sicrhau mynediad cyfartal drwy hyrwyddo a chefnogi datblygiad addysg gynhwysol ac ymrwymo i ddarparu addysg a gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl yn unol â'r adnoddau sydd ar gael. At hynny, drwy baratoi ysgolion a darparwyr addysg, y nod yw gwella safonau yn y Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd, cymunedau a gweithleoedd.

- **Strategaeth Iaith Gymraeg Caerffili**

Y llinell sylfaen ar gyfer y strategaeth yw proffil iaith cyfredol y fwrdeistref. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd gan fwrdeistref sirol Caerffili 19,251 o siaradwyr Cymraeg (11.2% o'r boblogaeth) gyda 12% yn siarad Cymraeg yn llai rhugl ac, yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o fis Ionawr 2016, roedd 16.9% o'r boblogaeth ysgol gynradd a 12.7% o'r boblogaeth ysgol uwchradd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth hon felly yn cynnig cynyddu'r targed o ran nifer y siaradwyr Cymraeg o leiaf 3% rhwng 2017 a 2022. Mae'r targed hwn felly'n golygu y bydd o leiaf 14.2% o boblogaeth bwrdeistref sirol Caerffili yn siarad Cymraeg erbyn Cyfrifiad 2021.

- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol Caerffili**

Mae hon yn ddogfen statudol o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac mae'r cynllun pedair blynedd hwn yn esbonio'n syml yr hyn y mae pob un o'r materion cydraddoldeb yn ei olygu mewn gwirionedd ac o dan ba ddeddfwriaeth ehangach y mae gennym gyfrifoldebau fel Cyngor. Mae'n tynnu sylw at gysylltiadau â deddfwriaeth a rheoliadau sy'n cwmpasu Safonau'r Gymraeg a materion Hawliau Dynol a sut mae'n cefnogi pedwar o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru, sef Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

- **Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant**

Adroddiad sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata a gwybodaeth wahanol er mwyn datblygu darlun o'r farchnad gofal plant bresennol a nodi a oes unrhyw fylchau yn y cyflenwad.

- **Strategaeth Datgarboneiddio CCBC**

Mae gan CCBC hanes rhagorol o weithredu mentrau sydd o fudd i'r amgylchedd. Mae'r awdurdod wedi lleihau allyriadau carbon trwy fuddsoddi mewn technolegau sy'n lleihau'r defnydd ac rydym wedi gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd lleihau carbon gyda'n staff, disgyblion a thrigolion ledled y fwrdeistref sirol. Bydd cynigion yn ystyried y ffordd orau o gyflawni'r agenda hon fel rhan o'r broses adeiladu a materion gweithredol yn y dyfodol.

Bydd defnyddio cynllun newydd yr Asesiad Effaith Integredig yn helpu i gefnogi'r Cyngor ymhellach i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau y cydymffurfir ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

**5. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 –** Y Pum Ffordd o Weithio

*(Fe'u gelwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy hefyd. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried sut mae unrhyw gynnig yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio fel llinell sylfaen)*

| Ffyrdd o Weithio | Sut rydych wedi defnyddio'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy wrth lunio'r cynnig? |
|---|---|
| **Hirdymor** | Bydd y prosiect uno arfaethedig yn dwyn ynghyd Ysgol Iau Llancaeach, a ddisgrifir gan Estyn fel "ysgol dda", ac Ysgol Fabanod Llanfabon, a ddisgrifir fel ysgol sydd wedi gwneud "cynnydd sylweddol" dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd estyn ac ad-drefnu Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn creu'r ysgol gynradd newydd yn dod â chryfderau cydnabyddedig y ddwy ysgol ynghyd ac yn cynnig llwyfan, drwy ddarparu cyfleusterau pwrpasol ac addas at y diben, i'r ysgol newydd symud tuag at ragoriaeth. Bydd seilwaith yr ysgol newydd yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach wneud y defnydd gorau o'r cyfleuster. |
| **Atal** | Bydd darparu ysgol gynradd newydd, wedi'i hestyn a'i had-drefnu, ar gyfer dysgwyr yn nalgylch yr ysgolion presennol yn galluogi disgyblion i fanteisio ar gyfleuster yr 21ain ganrif a chael cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra, gyda pharhad addysgol o 3 i 11 oed, a fydd yn gwella eu cynnydd drwy'r cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru. |
| **Integreiddio** | Bydd y cynnig i uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn ysgol gynradd newydd yn effeithio ar Nodau Llesiant:<br>• Cymru Lewyrchus<br>• Cymru sy'n Fwy Cyfartal<br>• Cymru Iachach<br>• Cymru o Gymunedau Cydlynus<br><br>Bydd y cyfleusterau arfaethedig yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. |
| **Cydweithredu** | Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda staff yr ysgol ac o amrywiaeth o adrannau i lywio llawer o'r cynigion ar gyfer yr adeilad newydd a'i gyfleusterau. Bydd hyn yn parhau ac yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu â'r dysgwyr er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn y broses ddatblygu.<br><br>Mae gweithgor trawsadrannol yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Gyfarwyddiaeth Addysg, Chwaraeon a Hamdden, Gwasanaethau Cynhwysiant, Gwasanaethau Eiddo, Cyllid ac Iechyd a Diogelwch wedi gweithio drwy'r broses opsiynau o lunio rhestr hir i argymell ffordd ymlaen, sef y cynnig hwn. |

| | |
|---|---|
| **Cyfranogiad** | Mae'r cynnig hwn yn bwriadu cau dwy ysgol gymunedol, Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau, er mwyn creu ysgol gynradd newydd ar gyfer plant 3-11 oed. Mae hyn yn golygu bod y newid arfaethedig o fewn cwmpas y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) felly dilynir canllawiau'r Cod yn agos, yn enwedig mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu.<br><br>Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal o dan Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 a bydd yn cyd-fynd â “Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu” a “Sbectrwm Ymgysylltu” Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Caiff dull ymgynghori amlgyfrwng ei ddatblygu, wedi'i lywio gan yr holl ganllawiau perthnasol.<br><br>Caiff Llais y Dysgwr ei gofnodi fel rhan o'r broses hon hefyd.<br><br>Ymgynghoriad Cynllunio<br>Bydd proses ar wahân ar gyfer gwneud cais cynllunio a fydd yn ymdrin â nifer o ystyriaethau cynllunio perthnasol. Bydd y broses hon yn cynnig rhagor o gyfleoedd i bartïon â diddordeb gymryd rhan ac ymgysylltu. |

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

| Nodau Llesiant | A yw'r cynnig yn cynyddu ein cyfraniad at y Nod Llesiant gymaint â phosibl ac, os felly, sut? |
|---|---|
| **Cymru Lewyrchus**<br>*Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas* | **Mae gweithlu medrus sydd wedi'i addysgu'n dda yn galluogi unigolion i fyw bywydau llwyddiannus a chyfrannu at yr economi ehangach.**<br><br>**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br><br>**Carbon Ymgorfforedig / Carbon Gweithredol**<br>Nod Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yw adeiladu ysgolion newydd, ehangu ysgolion, uno ysgolion, adleoli ysgolion ac adnewyddu ysgolion, sydd i gyd â'r potensial i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar ddatgarboneiddio a darparu model cyflawni newydd.  Fel y cyfryw, caiff sectorau gweithlu medrus a gwybodus eu cynnwys i gyflawni'r canlyniad hwn.<br><br>**Rhagolygon ar gyfer y Dyfodol:**<br><br>Bydd codi estyniad newydd yn Ysgol Fabanod Llanfabon, ac ad-drefnu'r adeilad, yn creu ysgol gynradd newydd â chyfleusterau'r 21ain ganrif a ddylunnir i gyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol newydd a'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc. Bydd hyn, yn ei dro, yn |

| | |
|---|---|
| | darparu'r sylfaen ar gyfer datblygu gweithlu medrus ac addysgedig sydd ei angen i danategu twf economaidd yng Nghymru. |
| **Cymru Gydnerth**<br>*Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)* | **Bydd pobl ifanc sydd wedi datblygu llesiant cadarnhaol a ffyrdd iach o fyw yn gallu ymdopi'n well â'r newidiadau a ddaw yn y dyfodol a, thrwy hynny, wneud Cymru yn genedl fwy cydnerth.**<br><br>**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br>Cael gwared ar hen adeiladau a chodi estyniadau newydd a fydd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion BREEAM. Bydd cyfle i ad-drefnu adeilad presennol hefyd, gan ei wneud yn fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar gyda llai o effaith ar newid yn yr hinsawdd.<br><br>Mae dyhead y bydd y cynnig hwn yn lleihau llif y traffig yn ardal Nelson hefyd, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ganlyniadol ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd.<br><br>Bydd datblygu ysgol gynradd gyfoes sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif o fudd sylweddol i'w disgyblion ac, fel yr awgrymodd Estyn, bydd amgylchedd dysgu o ansawdd uchel o'r natur hon yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, llesiant a deilliannau disgyblion. |
| **Cymru Iachach**<br>*Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol* | **Mae galluogi pobl i ddatblygu ffyrdd iach o fyw a llesiant cadarnhaol yn arwain at fuddiannau hirdymor cadarnhaol ar gyfer eu hiechyd eu hunain a chymdeithas yn gyffredinol.**<br><br>**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br><br>Bydd yr estyniad newydd a'r gwaith ad-drefnu arfaethedig yn Ysgol Fabanod Llanfabon yn darparu ar gyfer 275 o ddysgwyr oed cynradd, ynghyd â 40 o leoedd Meithrin. Bydd darpariaeth gofal plant cofleidiol ar gael ar gyfer rhwng 24 a 68 o blant hefyd. Bydd sicrhau darpariaeth barhaus ar un safle o fudd sylweddol i blant, disgyblion, rhieni, teuluoedd a'r gymuned leol.<br><br>Bydd y cynnig i greu ysgol gynradd addas at y diben sydd wedi'i hestyn a'i had-drefnu yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh gwell, sy'n canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pob disgybl. Bydd y cynigion yn arwain at fannau dysgu a chyfleusterau cymunedol gwell. |

| | |
|---|---|
| | Bydd y cyfleusterau hyn ar gael i'r gymuned ar adegau addas, yn unol ag amserlen y cwricwlwm, ac ar ôl i oriau ysgol. Bydd cyfle i integreiddio cyfleusterau cymunedol presennol sydd gerllaw â'r ysgol er mwyn gallu defnyddio adnoddau cymunedol ac addysgol y Cyngor hyd yn oed yn fwy effeithiol.<br><br>Bydd amgylchedd gwell yr ysgol newydd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant meddyliol y disgyblion. Bydd yr ardaloedd gweithgareddau awyr agored a chwarae meddal newydd yn helpu'r disgyblion i ddatblygu ffordd iach o fyw a chadw'n heini. Bydd y cyfleusterau hyn ar gael i'r gymuned eu defnyddio hefyd ac felly byddant yn helpu i gefnogi ffyrdd iach o fyw yn y gymuned leol. |
| **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**<br>*Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd)* | **Dylai pawb yng Nghymru allu byw eu bywydau a chyflawni eu potensial.**<br><br>**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br><br>**Defnydd Cymunedol:**<br>Bydd y sawl fydd yn mynychu, yn defnyddio ac yn gweithio yn yr adeilad yn cael budd o gyfleuster arloesol yr 21ain Ganrif, sy'n addas at y diben. Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig yn bwriadu ehangu mynediad i'r safle newydd er mwyn galluogi'r gymuned i'w ddefnyddio a chynnig darpariaeth gofal plant.<br><br>Fel rhan o gylch gwaith Ysgolion yr 21ain Ganrif, rhaid ystyried y posibilrwydd o rannu cyfleusterau'r ysgol â'r gymuned ehangach. Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased mewn ffordd ddiogel ac ymarferol. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i'r gymuned allu defnyddio'r neuadd, ystafell ddosbarth amlbwrpas ac ardaloedd chwarae awyr agored yn ddiogel ar adegau addas ac yn unol ag amserlen y cwricwlwm.<br><br>Caiff y seilwaith ar gyfer y Wi-Fi a Thechnoleg Gwybodaeth ei sefydlu i gefnogi mynediad cyhoeddus a defnydd gan y gymuned.<br><br>**Effaith ar ysgolion eraill:**<br><br>Ni ddylai'r cynnydd bach mewn capasiti gael llawer o effaith ar ysgolion cyfagos, ond mae'n cynnig rhywfaint o gapasiti ychwanegol i ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol. Ystyrir cynyddu'r rhif derbyn i 40 yn raddol os bydd hyn yn fuddiol er mwyn osgoi |

| | |
|---|---|
| | unrhyw effaith ormodol ar ysgolion cyfagos.<br><br>Bydd yr ysgol newydd sbon hon ar gyfer yr 21ain ganrif yn darparu digon o leoedd ar gyfer y dalgylch fel y gall pob darpar ddisgybl yn yr ardal, ni waeth beth fo'i gefndir na'i amgylchiadau, fanteisio ar y cyfleoedd dysgu ac addysgu a'r cyfleusterau ardderchog yn yr ysgol newydd.<br><br>Mae'r gofrestr amcanestynedig ar gyfer y chwe blynedd nesaf fel a ganlyn:<br><br>**Niferoedd Gwirioneddol ac Amcanestynedig sy'n Mynychu**<br><br>(see table below)<br><br>Mae dwy ysgol gynradd Saesneg gymunedol a dwy ysgol gynradd Gymraeg gymunedol yn agos at y safle presennol, sy'n cynnwys Ysgol Gynradd Greenhill, Ysgol Gynradd Ystrad Mynach, Ysgol Gymraeg Bro Allta ac Ysgol Gymraeg Penalltau.<br><br>Bydd cynyddu'r nifer derbyn â swm y gellir ei reoli yn caniatáu ar gyfer y twf heb or-ddatblygu'r ddarpariaeth i ansefydlogi darpariaethau addysgol eraill sydd eisoes wedi'u sefydlu yn yr ardal. |
| **Nodau Llesiant** | **A yw'r cynnig yn cynyddu ein cyfraniad at y Nod Llesiant gymaint â phosibl ac, os felly, sut?** |
| **Cymru o Gymunedau Cydlynus**<br>*Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da* | **Dylid ystyried bod addysg pob person ifanc, ni waeth beth fo'i anghenion, yn gynhwysol; bydd cymunedau lleol yn cael budd o'r buddsoddiad yn rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif; mae'r ddau gynnig hyn yn sail i'r ymdeimlad o berthyn a chydlyniant mewn cymunedau ar draws Caerffili.** |

| Niferoedd Gwirioneddol ac Amcanestynedig sy'n Mynychu | | | |
|---|---|---|---|
| | Ysgol Fabanod Llanfabon | | Ysgol Iau Llancaeach |
| **Blwyddyn** | **Nifer ar y Gofrestr** | **Heb gynnwys y Dosbarth Meithrin** | **Nifer ar y Gofrestr** |
| 2020 | 130 | 107 | 138 |
| 2021 | 123 | 90 | 147 |
| 2022 | 122 | 90 | 142 |
| 2023 | 121 | 89 | 148 |
| 2024 | 130 | 99 | 138 |
| 2025 | 131 | 98 | 132 |
| 2026 | 129 | 98 | 127 |

| | |
|---|---|
| | **Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br><br>**Yr Ysgol:**<br>Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon yn darparu ar gyfer disgyblion oed cynradd yn ardal Nelson yn Sir Caerffili. Mae'n gymuned gwbl gynhwysol lle mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae lefelau gofal, cymorth ac arweiniad, addysgu a dysgu'r ysgolion i gyd yn dda ac, o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr brwdfrydig. Nod y cynnig yw sicrhau ein bod yn parhau i adeiladu ar yr arweinyddiaeth dda ac effeithiol iawn a graddau da/cynnydd sylweddol yr ysgolion gan Estyn drwy uno'r ddwy ysgol ar safle Ysgol Fabanod Llanfabon drwy ddarparu estyniad newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu er mwyn creu ysgol gynradd newydd, addas at y diben.<br><br>Fel y mae ESTYN wedi'i ddangos, mae cysylltiad amlwg rhwng adeiladau ysgolion newydd gwell a pherfformiad gwell. Mae'r Cyngor o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r cyfle gorau i ddiogelu a chynnal safonau addysgol ar gyfer y dyfodol ac mae'n ffordd o wella drwy fuddsoddi'n sylweddol mewn cyfleusterau parhaol. Bydd hyn yn cynnig amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain Ganrif, gan gynnwys cyfleusterau TGCh a chyfleusterau chwarae awyr agored a chwarae meddal wedi'u hadnewyddu a mynediad estynedig i'r gymuned. Bydd hyn oll yn canolbwyntio ar ddysgu, hunan-barch a llesiant pawb.<br><br>**Teithio Llesol:**<br><br>Nod yr Awdurdod yw darparu system drafnidiaeth a fydd yn ceisio sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg yn ddiogel ac yn gyfforddus. Mae safle Ysgol Fabanod Llanfabon, lle cynigir uno'r ddwy ysgol, 0.5 milltir oddi wrth Ysgol Iau Llancaeach. Mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar drafnidiaeth a threfniadau teithio llesol. Mae'r Cyngor yn gobeithio symleiddio trefniadau a lleihau nifer cyffredinol y teithiau. |
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu**<br>*Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden* | **Mae diwylliant y wlad yn cydnabod ac yn dathlu dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd.**<br><br>**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br><br>**Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Gymraeg yn y Gymuned:** |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Awdurdod Lleol yn gwbl ymwybodol o'i rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac mae'r mesur yn gosod dyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny, sy'n galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth ymdrin â'r cyrff hynny (fel gwasanaethau a ddarperir gan y cyrff hynny).<br><br>**Comisiynydd y Gymraeg (Safonau a Strategaeth Pum Mlynedd)**<br><br>Drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ei ysgolion cyfrwng Saesneg, mae'r Cyngor yn dangos ei ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae diwylliant y wlad yn cydnabod ac yn dathlu dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar fywyd pob dydd a, thrwy ddarparu cyfleoedd Cymraeg ym maes addysg, mae'n cefnogi disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach i ddefnyddio'r Gymraeg yn weithredol. Yn Llanfabon a Llancaeach, noda Estyn fod disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ddwy ysgol a bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu darllen ac ysgrifennu'n effeithiol yn Gymraeg erbyn diwedd Blwyddyn 6.<br><br>Ceir rhagor o fanylion yn adran 7 o'r ddogfen hon. |
| **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang**<br>*Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang* | **Mae'r Gymraeg yn rhan gynhenid o lesiant Cymru gyfan ac mae ei hunaniaeth a'i hiaith unigryw yn cyfoethogi'r gymuned fyd-eang o ddiwylliannau amrywiol.**<br><br>**Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r Nod Llesiant hwn drwy:**<br><br>**Effaith ar y Gymuned:**<br><br>Bydd y prosiect arfaethedig yn ystyried y dyhead i annog a hwyluso'r gymuned i ddefnyddio'r ased. I'r perwyl hwn, bydd y broses ddylunio yn ceisio cynnwys mesurau i'r gymuned allu defnyddio'r estyniad newydd ac adeiladau'r ysgol wedi'u had-drefnu, gan gynnwys y neuadd, ystafell ddosbarth amlbwrpas ac ardaloedd chwarae awyr agored, yn ddiogel ar adegau addas ac yn unol ag amserlen y cwricwlwm. Bydd yr adeiladau newydd ac wedi'u had-drefnu yn hygyrch ac yn creu cyfleoedd i integreiddio'r cyfleuster yn y gymuned gyda chyfleoedd i'r gymuned ei ddefnyddio yn helpu i uwchsgilio pobl. |

| | |
|---|---|
| | Mae canolfan gymunedol leol a darn o dir segur y mae'r Cyngor yn berchen arno yn rhannu ffin â pherimedr yr ysgol a bwriad y Cyngor, fel rhan o'r cynnig hwn, yw ymchwilio i'r syniad o ddefnyddio'r tir fel rhan o gampws ehangach a fydd yn cynnwys cyfleusterau parcio a gollwng gwell a threfniadau posibl i'r ysgol a'r gymuned leol rannu defnydd o'r neuadd gymunedol. Mae hyn yn unol â dyhead y Cyngor i wneud y defnydd gorau posibl o'i asedau er budd cymunedau lleol.<br><br>**Budd i'r Gymuned:**<br>Fel rhan o'r gofynion ariannu ar gyfer holl gynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod Budd i'r Gymuned yn ofyniad craidd mewn unrhyw broses i gaffael contractau ac felly caiff ei sgorio fel rhan o'r gwerthusiad Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys nifer o dargedau ynghylch prosesau recriwtio a hyfforddi lleol, cadwyni cyflenwi, mentrau cymunedol ac addysgol. |

## 7. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg

*(Mae Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi 'sylw priodol' i'r effaith gadarnhaol neu negyddol y gall cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg) insert link to WL Commissioners Policy Making Standards Guidance*

Cymraeg

| Gofyniad | A yw'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar y canlynol a sut? | Os oes effeithiau negyddol, sut y caiff y rhain eu lliniaru? | Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r safbwynt hwn?<br>*e.e. y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Nodyn Cyngor Technegol 20, y Cynllun Datblygu Lleol,* Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
|---|---|---|---|
| **Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd 2017-2022 a Phroffil Ieithoedd** Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | **Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgolion.<br><br>**Cadarnhaol** | Ddim yn gymwys | **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)**<br>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.<br>**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ymgysylltir â Fforwm Cymraeg Caerffili fel rhan o'r broses o roi'r cynnig hwn ar waith er mwyn sicrhau bod pob sefydliad perthnasol yn rhan o'r cynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg. | | **2020**<br><br>**Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022**<br><br>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth<br><br>*Maes strategol 2* -<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.<br><br>*Maes strategol 5* -<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>**Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg**<br>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall<br><br>**Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.<br><br>**Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016**<br><br>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.<br><br>**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**<br><br>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:<br><br>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)<br><br>• Cyfrwng Cymraeg - 4,676<br>• Cyfrwng Saesneg - 23,126 |
| **Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg**.<br>*Safonau 88 - 93 yn benodol* | **Cadarnhaol**<br><br>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r | Bydd y broses yn ystod y cyfnod Ymgynghori a'r cyfnod Gwrthwynebu yn sicrhau y caiff ymgyngoreion allweddol eu | **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)**<br><br>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.<br><br>**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg. Mae hyn yn creu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac yn sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Cadarnhaol**<br><br>Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach a sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | targedu, fel yr amlinellir yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili; bydd y broses yn cynnig cyfleoedd i unigolion ymateb yn eu dewis iaith – Cymraeg neu Saesneg.<br><br>Yn ogystal, ymgynghorir â phlant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt drwy sesiynau gwybodaeth ac adborth wedi'u targedu. Caiff fersiynau o'r ddogfennaeth sy'n addas i blant eu cynhyrchu hefyd a bydd y rhain ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg. | **2020**<br><br>**Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022**<br><br>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth<br><br>*Maes strategol 2 -*<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.<br><br>*Maes strategol 5 -*<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>**Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg**<br>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall<br><br>**Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.<br><br>**Menter Iaith Caerffili: [Proffil Iaith 2016]()**<br><br>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.<br><br>**[Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)]()**<br><br>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:<br><br>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)<br><br>• Cyfrwng Cymraeg - 4,676<br>• Cyfrwng Saesneg - 23,126 |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg** *e.e. ei statws, y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd yn y gwaith / y gymuned* | **Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgolion. | Ddim yn gymwys | **[Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)]()**<br><br>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cadarnhaol**<br><br>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg.<br><br>**Cadarnhaol**<br><br>Bydd yr holl arwyddion yn yr adeilad newydd arfaethedig yn ddwyieithog.<br><br>**Cadarnhaol**<br><br>Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal yn ddwyieithog lle y bo hyn yn briodol a / neu lle y gwneir cais am hyn. | Mae gweithwyr yn y dderbynfa yn ateb y ffôn gan ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog<br><br>Bydd yr arwyddion yn ddwyieithog<br><br>Wrth recriwtio staff newydd i'r ysgol, pwysleisir y gallu i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg; ystyrir bod hon yn rhinwedd ddymunol. | **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-2020**<br><br>**Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022**<br><br>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth<br><br>*Maes strategol 2 -*<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.<br><br>*Maes strategol 5 -*<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>**Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg**<br>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall<br><br>**Strategaeth y Gymraeg –** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **Cymraeg 2050.**<br><br>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.<br><br>**Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016**<br><br>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.<br><br>**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**<br><br>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:<br><br>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)<br><br>• Cyfrwng Cymraeg - 4,676<br>• Cyfrwng Saesneg - 23,126 |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** *e.e. staff, preswylwyr ac ymwelwyr* | **Cadarnhaol**<br>Wrth ystyried ehangu'r ddarpariaeth, bydd prosesau | Cynigir darpariaeth Gymraeg ail iaith ar hyn o bryd. | **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)**<br><br>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | recriwtio a dethol yn adlewyrchu'r angen lleol ond hefyd yn cefnogi'r broses o greu swyddi.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd y cynnig yn creu cyfleoedd pellach i bobl ddefnyddio'r Gymraeg drwy weithgareddau pob dydd, gan gynnwys disgyblion ac athrawon.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r staff drwy gynnig cyrsiau Cymraeg am ddim, a rhai sydd wedi'u teilwra i feysydd gwaith penodol. Byddai'r cynnig hwn yn cefnogi'r staff i fanteisio ar unrhyw ddarpariaeth, yn ôl yr angen.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt symud drwy'r ysgolion.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn meithrin dealltwriaeth addas o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml. | Bydd prosesau recriwtio a dethol yn nodi bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgìl dymunol. | Gymraeg yng Nghymru.<br><br>**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-2020**<br><br>**Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022**<br><br>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth<br><br>*Maes strategol 2 -*<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.<br><br>*Maes strategol 5 -*<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br><br>**Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg**<br>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Maent yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon Cymraeg syml yn y gwasanaeth.<br><br>Maent yn ymateb yn dda i ymdrechion brwdfrydig y Criw Cymraeg i'w hannog i ddefnyddio ymadrodd yr wythnos.<br><br>Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o'r disgyblion yn dechrau ysgrifennu brawddegau Cymraeg â chystrawen syml, gan gynnwys brawddegau sy'n defnyddio'r gorffennol.<br><br>**Cadarnhaol**<br>Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen Gymraeg gadarn hon.<br><br>Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2, gall llawer o'r disgyblion ddarllen testunau Cymraeg syml yn hyderus. Gallant gyfieithu a dethol gwybodaeth yn llwyddiannus a darllen eu gwaith eu hunain â mynegiant. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ysgrifennu proffiliau personol medrus, gan ddefnyddio strwythurau brawddegau syml a'r gorffennol. | | **Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.**<br><br>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.<br><br>**Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016**<br><br>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.<br><br>**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**<br><br>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu haddysg:<br><br>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)<br><br>• Cyfrwng Cymraeg - 4,676<br>• Cyfrwng Saesneg - 23,126 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bydd uno'r ddwy ysgol yn arwain at well parhad o ran datblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion a mwy o arbenigedd staff i fanteisio arno. | | |
| **Sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg** | **Cadarnhaol**<br><br>Ar hyn o bryd, gellir darparu ar gyfer gofynion i gynnal unrhyw gyfarfodydd gyda'r ysgol i drafod darparu addysg drwy ddewis iaith y plentyn / teulu a'r hawl sydd gan bobl i hyn o dan Fesur y Gymraeg.<br><br>**Cadarnhaol**<br><br>Caiff yr holl ddogfennaeth, gan gynnwys y wefan sy'n ymwneud â'r cynnig, ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg<br><br>**Cadarnhaol**<br>Bydd yn bosibl anfon a derbyn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwrthwynebiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Cynigir darpariaeth Gymraeg ail iaith ar hyn o bryd | **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (legislation.gov.uk)**<br><br>Deddfwriaeth allweddol sy'n rhoi statws cyfreithiol swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.<br><br>**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili 2017-2020**<br><br>**Caerffili - Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022**<br><br>Y targed i gynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg 3% dros gyfnod y strategaeth<br><br>*Maes strategol 2 -*<br><br>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc a gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg.<br><br>*Maes strategol 5 -*<br><br>Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle drwy alluogi a chefnogi staff rhugl, a staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gweithle.<br><br>**Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg**<br>Diben TAN20 yw cynnig canllawiau ar sut y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yn y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion cynllunio a deddfwriaeth berthnasol arall<br><br>**Strategaeth y Gymraeg – Cymraeg 2050.**<br><br>Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i roi cyfleoedd hawdd a hygyrch i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol ac yn y gwaith.<br><br>**Menter Iaith Caerffili: Proffil Iaith 2016**<br><br>Mae'r proffil hwn yn ystyried safle'r Gymraeg ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, a'r ffordd y mae siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau.<br><br>**Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**<br><br>Gwybodaeth ystadegol ynglŷn â nifer y disgyblion ar lefel awdurdod lleol a chyfrwng iaith eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | haddysg:<br>Ffigurau Rhanbarth Caerffili (set ddata 2019/20)<br>• Cyfrwng Cymraeg - 4,676<br>• Cyfrwng Saesneg - 23,126 |

**7a. Ar ôl ystyried yr effeithiau uchod, sut mae'r cynnig wedi cael ei ddatblygu fel bod effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol, ar (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Angen a galw**
Fel rhan o'r cynnig i uno Ysgol Fabanod Llanfabon ac Ysgol Iau Llancaeach er mwyn creu ysgol gynradd newydd, mae'r Cyngor yn bwriadu cefnogi'r agenda leol a chenedlaethol ymhellach o ran datblygu safonau'r Gymraeg mewn addysg er mwyn sicrhau gweithlu dwyieithog medrus mewn Cymru ddwyieithog, gan gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg mewn Addysg  Po fwyaf o ddisgyblion sy'n mwynhau datblygu eu sgiliau Cymraeg mewn addysg gynradd, y mwyaf sy'n debygol o barhau i ddatblygu'r sgiliau hyn mewn addysg uwchradd a chael cyfleoedd i gyfoethogi eu bywydau yng Nghymru gan ddefnyddio'r Gymraeg.

**Lleoliad**
Nodwyd mai safle arfaethedig yr ysgol gynradd newydd yw Ysgol Fabanod Llanfabon sydd tua 0.5 milltir oddi wrth Ysgol Iau Llancaeach. Bydd yn tarfu cyn lleied â phosibl ar drefniadau teithio presennol disgyblion ac yn parhau i fod mewn lleoliad canolog yn y dalgylchoedd presennol ym mhentref Nelson.

Mae'r datblygiad arfaethedig yn sensitif i anghenion y gymuned ac mae dealltwriaeth glir hefyd, o'r manylion a ddarperir yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn a dogfennaeth gysylltiedig sy'n ymwneud â'r cynnig, fod proffil ieithyddol cyfredol ac amcanestynedig y cymunedau a'r ardal yn cefnogi'r angen am addysg cyfrwng Saesneg.

**Amseru**
Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet a phroses cais cynllunio lawn ar wahân, rhagwelir mai'r dyddiad meddiannu fyddai mis Medi 2024.

## 8. Data a Gwybodaeth

*(Pa ddata neu dystiolaeth arall a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynnig? Gall tystiolaeth gynnwys canlyniad ymgynghoriadau blaenorol, cronfeydd data presennol, prosiectau peilot, adolygiad o gwynion a chanmoliaethau cwsmeriaid a/neu adborth arall gan ddefnyddwyr gwasanaeth, data cenedlaethol a rhanbarthol, cyhoeddiadau academaidd ac adroddiadau ymgynghorwyr ac ati)*

| **Data/tystiolaeth**<br>*(Rhowch ddolen i adroddiad os yw'n briodol)* | **Canfyddiadau perthnasol allweddol** | **Sut mae'r data/tystiolaeth wedi llywio'r cynnig hwn?** |
|---|---|---|
| Mae sawl maes data wedi bwydo i mewn i'r ymchwil y tu ôl i'r cynnig hwn:<br>• Demograffeg yr ardal leol, gan gynnwys tueddiadau ar gyfer y dyfodol fel y nodir yn adran 6<br>• datblygiadau tai arfaethedig yn yr ardal<br>• canfyddiadau'r asesiad o addysg Gymraeg yn 2018<br>• yr arolwg o'r galw gan rieni yn 2018<br>• categoreiddio adeiladau ysgol gan gynnwys cynnal a chadw ôl-groniad y ddwy ysgol gyda'i gilydd<br>• data ar anfantais gymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol<br>• y galw am ddefnydd cymunedol<br><br>Y rhain yw'r sail ar gyfer yr holl amcanestyniadau o dueddiadau'r galw yn y dyfodol ac maent yn darparu tystiolaeth o'r angen am leoedd ychwanegol a chyfleusterau wedi'u huwchraddio yn y lleoliad hwn yn y fwrdeistref sirol.<br><br>. | Mae rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn rhaglen buddsoddi cyfalaf strategol, bwysig yn yr hirdymor. Caiff ei hariannu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a'i nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru yn unol â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:<br><br>• Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael<br>• Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir<br>• Cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg<br>• Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol<br><br>Gwneir Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 o dan Adrannau 38 a 39 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac mae'n gymwys i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir yn Adran 98 o Ddeddf 2013. Hynny yw, ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir. Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen cydymffurfio â nhw wrth ddatblygu cynnig. | Bydd y cynnig o fudd i ddisgyblion yn nalgylchoedd Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon gan y bydd yn darparu cyfleuster yr 21ain Ganrif modern ac addas at y diben i wella a chefnogi'r gwaith o ddarparu addysg Saesneg ymhellach yn ardal Nelson.<br><br>Caiff yr Asesiad Effaith Integredig hwn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg a'r Cabinet i gefnogi'r broses benderfynu<br><br>Ymgymerir â phroses cais cynllunio ar wahân, gan gynnwys ymgynghoriad ychwanegol, er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r adeilad a thrafnidiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | Gan fod y cynnig hwn yn awgrymu uno dwy ysgol gymunedol i greu un ysgol gynradd newydd ac adleoli'r ysgol iau i safle'r ysgol fabanod, caiff y broses ymgynghori ei chwmpasu gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a amlinellir yn Adran 3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 a bydd yn cyd-fynd â "Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu" a "Sbectrwm Ymgysylltu" Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.<br><br>Bydd datblygiadau ar bob cam yn destun prosesau craffu, adolygu a chymeradwyo gan Aelodau'r Cabinet ac, yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses fel un o'r partneriaid cyflawni allweddol a chyd-gyllidwr y prosiect. | |

**A nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn a sut y caiff y bylchau hyn eu llenwi?**

*Gellir cynnwys manylion ymgynghoriad pellach yn Adran 9.*

Ni nodwyd unrhyw fylchau yn y dystiolaeth a'r data a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r cynnig hwn.

## 9. Ymgynghori

*(Mewn rhai achosion, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori. Mewn achosion eraill, hyd yn oed pan nad oes rhwymedigaeth gyfreithiol, efallai y bydd disgwyliad dilys gan bobl y caiff ymgynghoriad ei gynnal. Lle penderfynwyd bod ymgynghoriad yn ofynnol, mae'n rhaid dilyn Egwyddorion Gunning. Ystyriwch y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu. Noder y gall fod angen diweddaru hyn wrth i'r cynnig ddatblygu ac i gryfhau'r asesiad.*

**Disgrifiwch unrhyw ymgyngoriadau diweddar, neu ymgyngoriadau arfaethedig, yn fras gan roi sylw penodol i roi tystiolaeth o Egwyddorion Gunning.**

Bydd y broses ymgynghori yn mynd rhagddi yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a bydd yn cyd-fynd â Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu a 'Sbectrwm Ymgysylltu' Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r broses hefyd yn cefnogi Egwyddor Cynnwys y pum ffordd o weithio mewn perthynas â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, gan gyfeirio'n benodol at yr angen i gael ei harwain gan leisiau pobl sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Caiff amrywiaeth eang o randdeiliaid eu cynnwys yn ystod y broses ymgynghori. Bydd hyn yn cynnwys ystyried "llais y dysgwr". Caiff amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a mathau o gyfryngau eu defnyddio i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu cryf fel rhan o'r broses.

Bydd yr holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gydol y broses a bydd fformatau eraill ar gael ar gais.

Caiff egwyddorion y broses ymgysylltu a nodwyd yn Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu 2020 yr Awdurdod Lleol eu cydnabod a bydd tîm y prosiect yn ymgysylltu ag unrhyw 'bartïon eraill â diddordeb' yn ôl y gofyn.

Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth wrth gwblhau proses ymgynghori mewn perthynas â chynnig ar gyfer ysgol er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gytbwys ac agored. Hynny yw, y broses a gaiff ei mabwysiadu gyda'r cynnig hwn, a bydd yn sicrhau y lefel briodol o weithgareddau ymgysylltu ag ymgyngoreion a thryloywder.

Mae'r cynnig ar y cam ffurfiannol o hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol gan y Cabinet, sef y corff penderfynu yn yr achos hwn.

## 10. Monitro ac Adolygu

| | |
|---|---|
| **Sut y caiff y broses o roi'r cynnig ar waith ac effaith y cynnig eu monitro, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau a roddir ar waith?** | Caiff y rhaglen ei rheoli gan Fwrdd Prosiect a fydd yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth, y Prif Swyddog Addysg, Aelod y Cabinet ar gyfer Addysg a Chyflawni, Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo Dros Dro a Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif. Y Bwrdd Prosiect fydd yn gyfrifol am gyfarwyddo a rheoli'r Rhaglen yn gyffredinol, gan fod yn gyfrifol am lwyddiant y Rhaglen a gweithredu fel y corff penderfynu ar gyfer y Rhaglen.<br><br>Tîm Rheoli'r Prosiect, a fydd yn cynnwys y Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth, yn ogystal ag adnoddau a staff o'r Gwasanaethau Eiddo, fydd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a rhoi pob prosiect cysylltiedig ar waith o ddydd i ddydd, a bydd yn atebol i'r Bwrdd ac uwch-swyddogion perthnasol eraill, fel y bo'n briodol. |

| | |
|---|---|
| | Mae personél allweddol wedi cael Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sesiynau ar Asesiadau Effaith Integredig ac Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb ac wedi mynychu hyfforddiant a sesiynau gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Caiff anghenion hyfforddiant eu hadolygu drwy gydol y broses ac eir i'r afael â nhw yn ôl yr angen.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Prif Swyddog wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Tîm Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori i ddilyn canllawiau yn ôl y gofyn. |
| **Beth yw'r trefniadau ymarferol ar gyfer monitro?** | Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i bob aelod o'r sefydliad feddu ar y sgiliau i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Cydnabyddir bod dulliau rheoli prosiectau da yn elfen hollbwysig er mwyn llwyddo i fynd i'r afael â'n rhaglen waith strategol.<br><br>Caiff egwyddorion rheoli prosiectau eu dilyn (Prince2 ac MS Project) drwy'r rhaglen. Caiff egwyddorion rheoli prosiectau eu rhoi ar waith ar gyfer y rhaglen Band B gyffredinol a bydd y prosiect yn defnyddio profiad tîm y prosiect sy'n rhan o brosiect Band A. Bydd hyn yn dechrau gyda chynllun gweithredu ar gyfer y Rhaglen a fydd yn diffinio amcanion, cyfrifoldebau, camau gweithredu dibynnol a risgiau'r rhaglen. Bydd yr olaf yn cynnwys dileu risgiau neu gamau lliniaru yn ogystal â'r unigolyn sy'n gyfrifol am y risg. Bydd adnodd i fonitro'r rhaglen gyffredinol yn cyfuno ac yn cydlynu rhaglenni caffael, dylunio ac adeiladu ac yn nodi'r prif ddibyniaethau a'r llwybr critigol.<br><br>Yn ogystal â'r adroddiadau niferus y mae angen eu cynhyrchu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a phrosesau penderfynu mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, dilynir model achos busnes er mwyn sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Datblygwyd Achos Busnes Amlinellol / Achos Busnes Amlinellol Strategol ar y cam cysyniadol yn seiliedig ar y pum maes allweddol sy'n sail i'r Broses Achosion Busnes Gwell (Model Busnes Pum Achos).<br><br>Canolbwyntiodd yr Achos Busnes ar y canlynol:<br><br>• cyfiawnhad strategol ac amcanion buddsoddi y prosiect (Achos Strategol)<br>• y rhesymeg y tu ôl i gwtogi'r rhestr hir o opsiynau yn rhestr fer a dadansoddiad o'r arfarniad o opsiynau a'u manteision (Achos Economaidd)<br>• cost amlinellol y prosiect a manylion arian cyfatebol a phroffil gwariant (Achos Ariannol)<br>• y strwythur rheoli arfaethedig (Achos Rheoli) |

| | |
|---|---|
| | • y strategaeth fasnachol (Achos Masnachol)<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth i sicrhau'r cyllid mewn egwyddor ar y cam hwn cyn i'r cynnig fynd rhagddo drwy'r broses ymgynghori.<br><br>Wrth i'r cynnig fynd rhagddo drwy'r prosesau ymgynghori, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd â Swyddogion Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd.<br><br>Unwaith y bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig, caiff Achos Busnes Llawn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a fydd yn canolbwyntio'n llwyr ar y costau wedi'u tendro oni bai fod unrhyw beth wedi newid ers cytuno ar yr achos busnes gwreiddiol. Ar y pwynt hwn, yn unol â chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, caiff y cyllid ei ryddhau er mwyn rhoi'r cynnig ar waith.<br><br>Yna, os caiff y cynnig ei roi ar waith (yn seiliedig ar gymeradwyaeth fel yr amlinellir uchod), ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, caiff Adroddiad Cloi gan Lywodraeth Cymru ei lunio, wedi'i ategu gan gostau llawn y prosiect a dadansoddiad o b'un a yw'r prosiect wedi cyflawni budd i'r gymuned.<br><br>Mae'n ofynnol i Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif fonitro prosiectau yn ystod eu pum mlynedd gyntaf drwy gwblhau gweithdai gwerthuso gyda'r disgyblion a'r staff pan fyddant yn defnyddio'r adeiladau. Adroddir ar hyn i Lywodraeth Cymru hefyd a bydd yn helpu'r Cyngor i ystyried arferion gorau ac unrhyw feysydd i'w gwella mewn prosiectau yn y dyfodol. |
| **Sut y caiff canlyniadau'r gwaith monitro eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?** | Mae'r Cyngor yn creu dogfen brotocol ar gyfer pob prosiect i agor/cau/uno ysgolion. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfrifoldebau unigolion a chyfrifoldebau tîm ar gyfer y rhestr lawn o'r camau gweithredu gofynnol dros y tri cham o ddylunio a pharatoi ar gyfer adeiladu, adeiladu a meddiannu’r ysgol a datgomisiynu.<br><br>Caiff cyfarfodydd monitro rheolaidd eu cynnal ac fel arfer byddant yn cynnwys cynrychiolwyr o Dîm Ysgolion yr 21ain Ganrif, Penaethiaid, Cynghorwyr Addysg, Gwasanaethau Eiddo, Gwasanaethau Arlwyo a'r adrannau TGCh, Rheoli Traffig, Caffael ac Archwilio. Bydd rhanddeiliaid perthnasol hefyd yn rhan o'r broses o werthuso'r prosiect wedi iddo ddod i ben er mwyn adolygu'r canlyniadau a sicrhau y caiff gwelliannau eu gwneud i brosiectau yn y dyfodol.<br><br>Caiff y Buddiannau a Wireddwyd eu monitro gan dîm y prosiect a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac adroddir arnynt i Lywodraeth Cymru yn adroddiad cloi'r prosiect ac mewn dogfennau perthnasol eraill. Adroddir ar y buddiannau i'r gymuned bob chwarter, yn flynyddol |

| | |
|---|---|
| | ac ar ôl i'r prosiect ddod i ben.<br><br>Caiff adolygiad porth ei gynnal hefyd yn ôl gofynion y cytundeb cyllido. Fel rhan o'r adolygiad, bydd ymarferwyr annibynnol nad ydynt yn rhan o'r rhaglen/prosiect yn defnyddio eu profiadau a'u harbenigedd i fwrw golwg ar gynnydd y rhaglen neu'r prosiect yn ogystal â'r tebygolrwydd o lwyddo. Bydd pob argymhelliad gan y tîm adolygu yn cael ei ystyried a'i roi ar waith yn ôl y gofyn.<br><br>Caiff adolygiad yn dilyn y contract ei gynnal hefyd. |
| **Pryd y bwriedir adolygu'r cynnig?** | Mae'n rhaid i benderfyniadau (mewn perthynas â chynigion y mae angen eu cymeradwyo neu benderfynu'n derfynol arnynt) gael eu gwneud a'u cyflwyno ar ffurf llythyr penderfynu. Mae'n rhaid i'r llythyr penderfynu nodi'r rhesymau dros y penderfyniad yn glir, gan gyfeirio at God Trefniadaeth Ysgolion 2018. Caiff y llythyr penderfynu ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor a bydd yr ymgyngoreion, fel yr amlinellir yn Adran 5.6 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, yn cael gwybod drwy lythyr/e-bost fod y ddogfen ar gael. |
| **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd?** | Gofynnir i Aelodau'r Cabinet adolygu'r cynnig a gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid rhoi'r cynnig a amlinellir isod ar waith neu beidio:<br><br>Uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon ar safle'r ysgol fabanod, i gynnwys addysg gynradd, darpariaeth feithrin, darpariaethau gofal plant a defnydd cymunedol o'r cyfleuster. Bydd adeiladau presennol Llanfabon yn cael budd o estyniad newydd a gwaith i ad-drefnu'r ysgol fabanod gyfredol.<br><br>Os caiff ei gymeradwyo, Awdur yr adroddiad hwn (neu swyddog enwebedig yn ei isadran) fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Asesiad Effaith Integredig a'r cynnig yn cael eu hadolygu a bod unrhyw gamau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith, neu y cymerir camau dilynol yn eu cylch. |

## 11. Argymhelliad a'r Rhesymeg

| | |
|---|---|
| X | Rhoi'r cynnig ar waith heb unrhyw ddiwygiadau |

| | |
|---|---|
| ☐ | Rhoi'r cynnig ar waith gan ystyried y camau lliniaru a amlinellwyd |
| ☐ | Gwrthod y cynnig oherwydd yr effaith anghymesur ar gydraddoldeb, tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol |

**A ydych wedi cysylltu â swyddogion perthnasol i gael cyngor ac arweiniad? Ydw X Nac ydw ☐**

## 12. Y Rheswm/Rhesymau dros yr Argymhelliad

*(Rhowch grynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig isod. Dylid cynnwys y crynodeb hwn yn yr adran "Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig" o Dempled yr Adroddiad Corfforaethol. Dylid cyhoeddi'r Asesiad Effaith Integredig ar y cyd â'r Adroddiad cynnig).*

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn argymell, yn unol â'r prosesau a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, fod Aelodau yn cymeradwyo'r cynnig i greu ysgol gynradd newydd drwy uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon ar safle Llanfabon, i gynnwys addysg gynradd, darpariaeth feithrin, darpariaethau gofal plant a defnydd cymunedol o'r cyfleuster. Mae'r cynnig yn cynnwys ad-drefnu'r ysgol fabanod gyfredol ac adeiladu estyniad newydd.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd ac a adolygwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn dangos bod potensial y bydd y galw am addysg Saesneg yn cynyddu yn ardal Nelson a bod angen uwchraddio'r ysgol iau a'r ysgol fabanod bresennol drwy greu ysgol gynradd newydd.

## 13. Rheoli Fersiynau

*(Dylid defnyddio'r Asesiad Effaith Integredig ar gamau cynnar y broses o ddatblygu'r cynnig. Gellir atgyfnerthu'r Asesiad wrth i amser fynd heibio er mwyn helpu i lywio'r cynnig. Bydd yr adran Rheoli Fersiynau yn cynnig llwybr archwilio er mwyn dangos sut mae'r Asesiad wedi cael ei ddatblygu dros amser)*

| Rhif y Fersiwn | Awdur | Disgrifiad cryno o'r diwygiadau/diweddariad | Dyddiad Diwygio |
|---|---|---|---|
| 1. | Andrea West | Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd a nodir yn Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, defnyddiwyd y templed newydd hwn ar gyfer yr Asesiad Effaith Integredig. | |
| 2. | Andrea West | Mae'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i adolygu i gynnwys unrhyw rai ychwanegol elfennau a amlygwyd drwy'r broses ymgynghori statudol a gynhaliwyd rhwng 20 Hydref 2021 a 1 Rhagfyr 2021.<br><br>Pwrpas yr asesiad pellach hwn yw ystyried unrhyw wybodaeth bellach | 02.12.2021 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sydd wedi dod ymlaen drwy'r ymgynghoriad neu fel arall.<br>Nid oes angen diweddariadau pellach ar hyn o bryd. | |

| **Awdur yr Asesiad Effaith Integredig** | |
|---|---|
| **Enw:** | **Andrea West** |
| **Teitl Swydd:** | **Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif** |
| **Dyddiad:** | *A.West* |

| **Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | **Sue Richards** | | |
| **Teitl Swydd:** | **Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth** | | |
| **Llofnod:** | *S.Richards* | **Dyddiad:** | **23.7.2021** |